O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

2007 Rhif 2332 (Cy.190)

IECHYD Y CYHOEDD, CYMRU

Rheoliadau Gofal Iechyd Preifat a Gwirfoddol (Cymru) (Diwygio) 2007

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)

Gwneir y rheoliadau hyn o dan Ddeddf Safonau Gofal 2000 ac maent yn diwygio Rheoliadau Gofal Iechyd Preifat a Gwirfoddol (Cymru) 2002. Maent yn diwygio'r eithriadau ar gyfer cofrestru fel ysbyty annibynnol, clinig annibynnol ac fel asiantaeth feddygol annibynnol drwy dynnu'r geiriau "neu berson arall" o reoliadau 3(3)(f), 4(1)(b) and 4A.

O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

2007 Rhif 2332 (Cy.190)

IECHYD Y CYHOEDD, CYMRU

Rheoliadau Gofal Iechyd Preifat a Gwirfoddol (Cymru) (Diwygio) 2007

Gwnaed *7 Awst 2007*

Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru

9 Awst 2007

Yn dod i rym *7 Medi 2007*

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adrannau 2(4) a 2(8) o Ddeddf Safonau Gofal 2000 (**1**), drwy hyn yn gwneud y Rheoliadau canlynol:

Enwi, cychwyn a chymhwyso

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Gofal Iechyd Preifat a Gwirfoddol (Cymru) (Diwygio) 2007 a deuant i rym ar 7 Medi 2007.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

Dehongli

2. Yn y Rheoliadau hyn—

(**1**) 2000 p.14. Rhoddir y pwerau i'r "*appropriate Minister*". Ystyr "*Appropriate Minister*" o ran Cymru yw'r Cynulliad: gweler adran 121(1) o'r Ddeddf. Trosglwyddir y pwerau i Weinidogion Cymru gan adran 162 a pharagraff 30 o atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru .2006 (P.32).

ystyr "y Prif Reoliadau" (*"the Principal Regulations")* yw Rheoliadau Gofal Iechyd Preifat a Gwirfoddol (Cymru) 2002(**1**).

Diwygio Rheoliadau Gofal Iechyd Preifat a Gwirfoddol (Cymru) 2002

3.—(1) Yn rheoliad 3(3)(f) o'r Prif Reoliadau hepgorer y geiriau "neu berson arall".

(2) Yn rheoliad 4(1)(b) o'r Prif Reoliadau hepgorer y geiriau "neu berson arall".

(3) Yn rheoliad 4A o'r Prif Reoliadau hepgorer y geiriau "neu berson arall".

Edwina Hart

Y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, un o Weinidogion Cymru

7 Awst 2007

(**1**) O.S. 325/2002 (Cy.38), fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2006/1703 (Cy.165).